Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS) ar gyfer Meddygon Teulu

## Beth ydy hyn a beth mae'n ei feddwl i chi




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Safon Gwybodaeth Hygyrch'**.

Awst 2025

# Cynnwys


Am yr **AIS** 3

Ar gyfer pwy mae'r **AIS** 4

Beth mae'r **AIS** yn ei wneud 6

Beth mae'n rhaid i bractisau meddygon teulu ei wneud 8

Pam mae hyn yn bwysig 9

Mwy o wybodaeth 10

Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall 13

Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall 13


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51371, ISBN digidol 978-1-80633-030-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Am yr AIS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru.



Mae’r ddogfen yma am y **Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS)**.




Fe fyddwn ni’n ei alw’n **AIS** yn fyr.

Mae’r **AIS** yn set o reolau.
Mae’r rheolau’n dweud bod rhaid i bractisau meddygon teulu:

- Ddarganfod a oes angen help ar rywun i ddeall neu gyfathrebu.



- Roi gwybodaeth i bobl maen nhw’n gallu ei ddeall.
- Roi cefnogaeth i bobl gyfathrebu os ydyn nhw ei angen.

## Ar gyfer pwy mae’r AIS

Mae’r **AIS** yn cefnogi pawb sydd angen help i ddeall neu gyfathrebu.

Mae hyn yn meddwl pobl sydd:



- Yn F/fyddar, wedi colli eu clyw, neu’n drwm eu clyw.



- Yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.



- Yn ddall neu gyda golwg gwael.
- Yn fyddar-ddall.



- Yn anabl.



- Â dementia.



- Yn niwrowahanol.
  Mae niwrowahanol yn meddwl pobl ag ymennydd sy’n gweithio’n wahanol. Er enghraifft, mae awtistiaeth yn gyflwr niwrowahanol.



- Yn gweld darllen neu ysgrifennu yn anodd.



- Ynrhieni neu ofalwyr sy’n ei chael hi’n anodd deall neu gyfathrebu.




- Ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith.

Rydyn ni wedi diweddaru’r **AIS** i wneud yn siŵr bod **pawb** yn cael eu cefnogi. Roedd yr hen **AIS** yn cefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg neu glyw yn unig.

## Beth mae’r AIS yn ei wneud

Mae’r **AIS** yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael:

1. **Gwybodaeth maen nhw’n gallu ei ddeall.** Er enghraifft:




- Hawdd ei ddeall

print bras

- Print bras



- Braille




- Trwy e-bost



- Dros y ffôn



- Trwy fideo

2. **Cymorth cyfathrebu maen nhw ei angen.** Er enghraifft:



- Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain.



- Cyfieithydd ar gyfer eu hiaith eu hunain.



**Rhaid i bob practis meddyg teulu yng Nghymru ddilyn yr AIS.**

# Beth mae'n rhaid i bractisau meddygon teulu ei wneud

Rhaid i bob aelod o staff mewn practisau meddygon teulu:



**1. Gofyn**
Darganfod ydych chi neu'ch gofalwr angen help gyda gwybodaeth neu gyfathrebu.



**2. Cofnodi**
Ysgrifennu pa help rydych chi ei angen mewn ffordd glir.

**3. Amlwg**
Gwneud yn siŵr bod eich anghenion yn hawdd i'w gweld ar eich cofnod iechyd.



**4. Rhannu**
Rhannu'r wybodaeth yma gyda gwasanaethau eraill y GIG os oes angen.

Dilyn y rheolau cywir am rannu gwybodaeth.



**5. Gweithredu**
Gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael y gefnogaeth a'r wybodaeth gywir mewn ffordd rydych chi'n ei ddeall.

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae'r **AIS** yn helpu practisau meddygon teulu i roi'r help cywir i bobl sy'n gweld cyfathrebu yn fwy anodd.

Mae cyfathrebu da yn golygu bod pobl yn:

- Deall eu hiechyd a'u gofal




- Teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau
- Gallu gwneud dewisiadau da



- Yn fwy tebygol o aros yn iach

# Mwy o wybodaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma 1 o 3 dogfen newydd sydd wedi cael ei gwneud gan Lywodraeth Cymru gyda phartneriaid.



Y ddogfen gyntaf ydy **Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru**.

Mae'r Safonau yma yn dweud beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud i gyfathrebu â phobl.




Mae dogfen hawdd ei ddeall am y Safonau yma: [www.llyw.cymru/safon-gwybodaeth-hygyrch-ais-ar-gyfer-practisau-meddygon-teulu](www.llyw.cymru/safon-gwybodaeth-hygyrch-ais-ar-gyfer-practisau-meddygon-teulu)



Yr ail ddogfen ydy'r **Safon Gwybodaeth Hygyrch ar gyfer meddygon teulu**.

Mae'r **AIS** yn helpu practisau meddygon teulu i roi'r help cywir i bobl sy'n gweld cyfathrebu yn fwy anodd.



Y drydedd ddogfen ydy **Rheolau newydd ar gyfer staff y GIG sy'n defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithu mewn gofal iechyd**.

Mae'r rheolau yma yn dweud sut i drefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd  neu gyfieithu i gleifion.




Mae cyfieithu yn meddwl newid geiriau ysgrifenedig i iaith arall. Mae cyfieithu ar y pryd yn meddwl newid geiriau llafar i iaith arall.




Mae dogfen hawdd ei ddeall am y **AIS** yma: [www.llyw.cymru/safon-gwybodaeth-hygyrch-ais-ar-gyfer-practisau-meddygon-teulu](www.llyw.cymru/safon-gwybodaeth-hygyrch-ais-ar-gyfer-practisau-meddygon-teulu)

Fe fydd y rheolau a'r safonau yma i gyd yn helpu pobl:

- Deall eu iechyd a'u gofal




- Teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau

- Gwneud dewisiadau da



- Cadw'n iach

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau a'r safonau newydd:




Ewch i'n gwefan: [www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd](www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd)




Neu anfonwch e-bost atom ni yn: [hsceyg.equalityteam@gov.wales](mailto:hsceyg.equalityteam@gov.wales)

## Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall




I gael gwybodaeth iechyd hawdd ei ddeall, rhowch gynnig ar Iechyd A-Z Hawdd ei Ddeall GIG Cymru: 111.wales.nhs.uk/easyreads/easyread.aspx

## Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu pecyn adnoddau hawdd ei ddeall ar gyfer **Archwiliadau Iechyd Blynyddol**.

Yn y pecyn mae gwybodaeth ddefnyddiol ac adnoddau hawdd ei ddeall i'ch helpu i gael eich Archwiliad Iechyd Blynyddol.




Mae ar gael yma: bit.ly/HawddeiDdeallAIB